Gwasanaeth Tân Ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Mid and West Wales Fire and Rescue Service

Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
South Wales Fire and Rescue Service

# Gweithredydd Rheoli Brys 999

**Os ydych chi'n chwilio am swydd ystyrlon a phwrpasol lle gallwch chi helpu rhywun pan fydd angen arnynt, wnewch gais i ymuno â Rheolaeth Tân ar y Cyd y Gwasanaethau Tân ac Achub!**

Mae'r Ganolfan Reoli, a leolir ym Mhen-y-bont ar Ogwr, yn cefnogi galwadau brys a threfnu adnoddau a rheoli digwyddiadau ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a De Cymru. Mae'r rôl yn rhoi cyfle gwych i gefnogi'r cyhoedd a chymunedau drwy ateb a delio'n broffesiynol â galwadau brys 999, symud peiriannau, swyddogion, ac adnoddau arbenigol i gefnogi ymateb effeithiol i argyfyngau – Mae pob galwad yn unigryw ac mae pob dydd yn wahanol.

**Manylion am y swydd**

Rydym yn chwilio am Weithredwyr Rheoli ymroddedig a brwdfrydig i weithio fel rhan o'n tîm deinamig i helpu i gefnogi'r gwasanaeth 999 a gweithio i werthoedd a safonau ymddygiad y Gwasanaeth Tân ac Achub. Bydd angen i chi allu delio ag aelodau trallodus o'r cyhoedd i gasglu gwybodaeth briodol a manwl. Mae meddu ar sgiliau bysellfwrdd ardderchog yn hanfodol ar gyfer y swydd hon gan y bydd angen i chi gofnodi gwybodaeth gywir yn gyflym gyda chyflymdra o leiaf 35 gair y funud. Mae angen i chi fod yn broffesiynol iawn, yn wrandäwr da gyda sgiliau cyfathrebu rhagorol ac yn ffordd ardderchog o ymdrin â galwadau ffôn. Mae'n hanfodol eich bod yn gallu dilyn prosesau a gweithdrefnau a gallu aros yn ddigynnwrf o dan bwysau parhaus yn ogystal â gweithio fel rhan o dîm bach.

**Pryd fyddwch chi'n gweithio?**

Mae'r Ystafell Reoli yn weithredol 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos, a bydd yr holl batrymau sifft treigl fel arfer yn cynnwys gweithio cymysgedd o sifftiau dydd a nos (gan gynnwys sifftiau penwythnos, Nadolig a Gwyliau Banc).

***Sylwch: nid yw rôl y diffoddwr tân rheoli yn darparu llwybr gyrfa i rôl diffoddwr tân Amser Cyflawn neu Ar Alwad.***

Gwahoddir ceisiadau gan ymgeiswyr sydd â phrofiad a chymwysterau priodol yn unol ag amlinelliad y Fanyleb Person. Mae penodiad ar gyfer y rôl hon yn amodol ar gyflawni Fetio gan yr Heddlu. Cyn y gwneir unrhyw gynigion ffurfiol bydd yn ofynnol i yr ymgeiswr llwyddiannus gael Prawf Cyffuriau ac Alcohol.

Mae PECYN GWYBODAETH I YMGEISWYR ar gael i'w lawrlwytho o wefannau Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru neu Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru.

https://www.decymru-tan.gov.uk/gweithio-gyda-ni-/swyddi-diweddaraf/

https://www.tancgc.gov.uk/cym/ymunwch-a-ni/swyddi-gwag-cyfredol/

Dylid llenwi Ffurflenni Cais ar-lein trwy system e-recriwtio Gwasaneth Tân De Cymru, y gellir ei chyrchu trwy ein gwefan: https://www.decymru-tan.gov.uk/gweithio-i-ni/swyddi-gwag-diweddaraf/

Os oes angen fersiwn papur, e-bostiwch: personel@decymru-tan.gov.uk

Mae'r holl ddogfennaeth ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg ac rydym yn croesawu cyfathrebu yn y ddwy iaith. Ni fydd ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol.  Bydd ymgeiswyr sy'n llwyddo yn y cam Llunio Rhestr Fer yn cael cyfle i gadarnha,u eu dewis iaith ar gyfer cyfweliadau ac asesiadau (gan gynnwys gwaith papur, cyflwyniadau llafar a chwestiynau cyfweliad).  Bydd y trefniadau'n cael eu cadarnhau yn dilyn gwahoddiad i gyfweliad a gellir darparu gwasanaeth Cyfieithu a/neu Gyfieithu ar y Pryd.

**Amserlen Asesiadau**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad Cau ar gyfer Ffurflenni Cais** | Dydd Llun 22ain Gorffenaf 2024 am 12:00 canol dydd |
| **Profion Gallu** | 5ed – 7fed Awst 2024 |
| **Cyfweliadau** | 19eg – 23ain Awst 2024 |
| **Profion Meddygol** | 26ain Awst 2024 ymlaen |

**Sylwch:**

Mae'n ofynnol i bob aelod o staff o fewn y Tîm Rheoli Tân basio proses fetio Heddlu De Cymru cyn y gwneir unrhyw benodiad. ***(Fetio Personél Heblaw'r Heddlu (NPPV*)** Mae'r lefel hon o fetio yn arfer safonol ac yn ofynnol i unrhyw un â mynediad corfforol neu o bell at leoliadau, gwybodaeth, neu gudd-wybodaeth yr heddlu.

Rydym yn credu yng ngwir werth gweithlu amrywiol ac yn annog ceisiadau gan bob sector o fewn y Gymuned.